

Nid cofio am gamdriniaeth y miliynau o Iddewon ddiodeffodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn unig a wnawn ar *Ddiwrnod cofio'r Holocaust* oherwydd mae diodeffaint cenhedloedd eraill a llwythi eraill ym Mosnia, Rwanda ac yn y blaen yn cael eu cofio hefyd. Eleni thema'r cofio bydd 'Rhwygo o'u cartref.'

Mewn cyfnod ym Mhrydain pryd y mae'n ymddangos bod iaith greulon a didrugaredd yn cael ei ddefnyddio i sôn am ffoaduriaid mae'n werth cofio am ymdrechion rhai sy'n arwyr heddiw am iddynt amddiffyn buddiannau ffoaduriaid anghenus yn eu hoes.

Diwrnod Cofio'r Holocaust 2019 Gweledigaeth thema



HOLOCAUST
MEMORIAL
DAY TRUST

Rhwygo o'u cartref

'Doeddwn i ddim yn teimlo bod gen i gartref ar ôl yr hil-laddiad achos bod popeth wedi'i ddirio. Doedd gen i ddim cartref o gwbl. Doedd gen i ddim byd.'

Chantal Uwamahoro, goroeswr yr hil-laddiad yn Rwanda

Kindertransport

Mis Tachwedd 1938 oedd hi. Ar y 15ed o Dachwedd 1938, pum niwrnod wedi difrod Kristallnacht, daeth nifer o unigolion o Brydain, yr Almaen ac Awstria at ei gilydd i drafod dyfodol ansicr oedd yn wynebu plant Iddewon oedd yn byw yn yr Almaen ac Awstria. Synhwyrent fod erchyllterau enbydus ar fin digwydd. Yn wir roeddynt

yn amau fod yr erchyllterau wedi cychwyn yn barod.

Yn yr un cyfnod aeth Nicholas Winton ar daith i Prague a gweld yr erlid a wynebai'r Iddewon, y Sipsiwn a'r bobl o lwyth y Slafiad. Roedd miloedd o ffoaduriaid eisoes mewn gwerylloedd rhyfel yn Tsiecoslofacia (fel yr oedd ar y pryd) a'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn annigonol. Roedd hi'n argyfwng dyngarol.

ym Mhrydain cynigiwyd 500 o leoedd i blant fedru aros gyda theuluoedd. Roedd y croeso a gynigiwyd iddynt yn ddiamedd. Sefydlwyd rhwydwaith o wirfoddolwyr o fewn yr Almaen fyddai'n dethol plant ar sail angen. Dewiswyd rhai a wynebai ddyfodol mewn gweryll rhyfel; dewiswyd plant tlawd neu blant oedd ag un rhiant oedd eisoes mewn gweryll rhyfel. Wedi'r

(parhad ar dudalen 2)



Cofeb Kindertransport Banhoff, Friedrichstrasse, Berlin
w.de:Frank Meisler; caniatâd GNU

Cafodd Winton ei eni i deulu Iddewig ac yn ddiweddarach cafodd ei fedyddio fel Cristion. Rhesymanu dyngarol a'i cymhellodd i ymgymryd â'r gwaith.

Cychwynnodd Nicholas Winton ar y broses o symud plant i Norwy yn gyntaf ac yna i Brydain. Mewn ymateb i'r ymdrechion hyn daeth nifer o arweinwyr yr enwadau ym Mhrydain ynghyd, ynghyd â rhai o Gymdeithas y Cyfeillion i unio cais a fyddai'n caniatáu i Brif Weinidog Prydain, Neville Chamberlain, gynnig lloches i'r plant ym Mhrydain.

O fewn dim o dro danfonodd Mudiad Gofal Plant o'r Almaen bobl i Awstria a'r Almaen i ddewis y plant mwyaf bregus. Yn dilyn yr ymweliad ac o ganlyniad i apêl gan y BBC



Cofeb Kindertransport, Liverpool St, Llundain

Comisiynu Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd

Nos Lun, 18 Tachwedd cynhaliwyd cyfarfod yn Seion, Llanrwst, i gomisiynu Jennifer Roberts ar gyfer gwaith ymhlith plant, ac ieuenctid yn Henaduriaeth Dyffryn Conwy a Dyfrdwy. Yn bresennol yr oedd blaenoriaid, aelodau a gweinidogion o'r henaduriaeth yn ogystal â theulu a chyfeillion Jennifer.

Cafwyd hanes y penodiad gan y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Adran Gweinidogaethau Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac yn dilyn ymateb Jennifer, fe'i

comisiynwyd gan y Parchedig Brian Huw Jones, Cadeirydd Adran Gweinidogaethau Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Seiliodd y Parchedig Gerwyn Roberts ei bregeth ar Eseiâ 43:18, 'Edrychwch, rwyf yn gwneud peth newydd.' Pwyntiau ei bregeth oedd 'Ffordd newydd, Bywyd newydd, Gobaith newydd'.

Yn dilyn y cyfarfod arbennig a bendithiol ymneilltuodd pawb i'r Ysgoldy i fwynhau lluniaeth wedi ei baratoi gan y chwirydd.



Trosglwyddo Mantell

Yn ddiweddar rwyf wedi bod yn darllen cofiannau gweinidogion oedd yn byw oddeutu 1800–1840. Cyfnod yn ein hanes oedd rhwng cyffro'r Diwygiad Methodistiaidd a thyfiant mawr Cristnogaeth yng Nghymru ac 'uchafbwynt' Ymneilltuaeth yn ystod oes Fictoria. Hyd yn hyn rwyf wedi darllen cofiannau, William Williams o'r Wern (1771–1840), John Roberts, Llanbryn-mair, yr hynaf (1767–1834), Azariah Shadrach (1774–1844), Michael Roberts (1780–1849), Pwllheli a Cadwaladr Jones (1783–1867), Yr Hen Olygydd. Y mae bwriad gennyf i ddarllen nifer o gofiannau cymeriadau eraill o'r un cyfnod eleni.

Paham?

Mae nifer o resymau pam fy mod yn gwneud hyn, ond y ddau brif reswm yw hyn. 1. Rwyf eisiau gwybod pwy o'r bobl hyn oedd yn adnabod ei gilydd. Pwy ohonynt oedd yn perthyn i'w gilydd trwy waed a thrwy briodas? Meibion a merched pwy briododd a'i gilydd? Oherwydd mae gen i ddamcaniaeth! Er y pwyslais hanesyddol sydd wedi ei roi

ar y gwahaniaethau enwadol fu, mai un mudiad oedd Ymneilltuaeth yng Nghymru. 2. Hefyd yn y cyfnod hwn, rhwng dyweder 1790 a 1850, y plannwyd cannoedd o eglwysi yng Nghymru gan y bobl hyn a esgorodd ar lwyddiant anghymharol yn hanes Cristnogaeth yn ail hanner yr 19eg ganrif. Beth oedd eu dulliau wrth blannu eglwysi? Sut oeddent yn mynd ati i sefydlu cynulleidfaoedd newydd? Bellach rydym wedi cyrraedd cyfnod arall lle y mae angen plannu eglwysi bach newydd. Wrth i eglwysi gau mor chwim y mae ardaloedd yn bodoli lle nad oes unrhyw dystiolaeth Gristnogol ynddynt. Rhaid inni ymateb yn gyflym neu adael i rannau o Gymru fod mewn tywyllwch ysbrydol. A allwn ni ddysgu unrhyw beth o'r gorffennol gan y Cristnogion hynny a fu'n plannu a thyfu eglwysi mor llwyddiannus, fydd yn ein cynorthwyo nawr?

Ieuenctid

Wrth ddarllen y cofiannau hyn, un peth a ddaw i'r amlwg yw bod polisi yn yr eglwysi o drosglwyddo mantell



arweinyddiaeth i ddwylo pobl ifanc. Roeddent yn studio, gwrando a siarad gyda'u hieuenctid i weld os oedd doniau ganddynt y gellid eu defnyddio i wasanaethu'r Arglwydd. Yna, o weld potensial mewn unigolyn yr oeddent yn eu hannog i ddatblygu'r doniau hynny o fewn i'r gynulleidfa. Dyma ddigwyddodd i Williams o'r Wern, Cadwaladr Jones a'r gweddill.

Mentora

Mae'n rhaid inni wneud hyn ar fyrder heddiw yn ein heglwysi gan annog aelodau iau i ddatblygu eu doniau ysbrydol, i weddio, arwain addoliad ac astudiaeth Feiblaidd gan ddatblygu eu gweledigaeth dros achos Iesu Grist. Un o'r gwersi pwysicaf rwyf wedi ei ddysgu yw mai rhan allweddol o waith arweinydd yw camu yn ôl a throsglwyddo'r awenau i rai iau gan eu mentora a'u hamddiffyn. Os na wnawn hyn bydd ein heglwysi yn anochel yn dirwyn i ben o fewn hanner cenhedlaeth.

Eliseus

Yr esiampl enwocaf o hyn yn y Beibl yw hanes Elias yn trosglwyddo ei fantell yn llythrennol i Eliseus yn 1 Brenhinoedd 19: 15–21. Gorchmynnodd Duw iddo wneud hynny er mwyn i Eliseus broffwydo yn ei le. Trowch at y bennod hon nawr a darllenwch yr hanes. Gofynnwch i chi eich hunain, 'a oes rhywun yn ein cynulleidfa ni y dylwn eu herio i wasanaethu'r Arglwydd'. Os oes, siaradwch gyda hwy, dywedwch wrthynt eich bod yn gwel potensial ynddynt gan eu hannog i gymryd rhan mewn oedfaon ac i arwain. Peidiwch â bod yn swil oherwydd pobl fel chi y mae'r Arglwydd yn eu defnyddio i feithrin cenhedlaeth newydd sy'n caru a gwasanaethu'r Arglwydd.

Alun Tudur

(**Gol.** O ddarllen erthygl Parch Ddr. Alun Tudur yn y Tyst tybiwyd fod y pwnc a drafodwyd ganddo yn fater i ninnau yn EBC roddi sylw iddo hefyd. Diolch am ganiatâd i'w ddefnyddio!)

Kindertransport (parhad o dudalen 1)

dewis penodwyd dyddiad ar gyfer y mudo a gyda chaniatâd y rhieni, rhoddwyd rhif i bob plentyn ar gerdyn brown, weithiau enw a chês bychan iddynt. Roedd y trefniadau ar gyfer y daith yn eu lle.

Pasiwyd Deddf oedd yn caniatáu hyn gan Senedd San Steffan ac awgrymwyd y medrai hyd at 15,000 o blant ddod i Brydain. Ffurfiwyd mudiad Mudiad Gofal Plant o'r Almaen (Movement for the care of Children from Germany). Y Mudiad Gofal Plant o'r Almaen fyddai'n gyfrifol am ysgwyddo costau teithio'r plant. Byddent yn gyfrifol am roi hanner can punt yn eu pocedi. Roeddynt yn tybio mai dros dro byddai'r trefniant. Caniatâdodd y Swyddfa Gartre geisiadau bloc yn hytrach na cheisiadau gan unigolion er mwyn hwyluso'r broses.

Cyrhaeddodd 200 o blant Harwich ar yr ail o Ragfyr dair wythnos wedi'r Kristallnacht. Yn ystod y naw mis nesa byddai 10,000 o blant yn eu dilyn. Roedd y *Kindertransport* hefyd wedi eu trefnu i Ffrainc, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd a Sweden. Erbyn 1939 roedd plant o Wlad Pŵyl hefyd yn cael eu symud. Parhaodd y mudo tan fis Mai 1940.

Cariodd yr SS Bodegraven y grŵp olaf o blant y *Kindertransport* o borthladd LJMuiden yn yr Iseldiroedd ychydig cyn i'r Natsiaid oresgyn y porthladd. Dewisodd Geertruida Wijsmuller-Meijer, yr un a drefnodd y daith, aros ar ôl yn LJMuiden. Caewyd pob un o ffiniau'r Iseldiroedd gan y Natsiaid ar y 15fed o Fai 1949.

Wedi'r Mudo

Cyfrannodd nifer o blant y *Kindertransport* i waith yn y fyddin, nyrsio, a galwedigaethau eraill. Arhosodd nifer ohonynt yn y wlad a'u llochesodd heb fyth ddychwelyd i'w mamwlad.

Sefydlwyd *Hosteli Habonim* er mwyn addysgu'r plant yn eu traddodiadau Iddewig ac astudio pynciau seiciwlar. Roedd un o'r canolfannau hyn yng Nghastell Gwrych, Gogledd Cymru ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd daeth 200 o blant y *Kindertransport* i fyw yno. Yno byddent yn byw mewn cymuned, yn dysgu ffermio a thyfu cynydau ar gyfer y rhyfel a chyfathrebu trwy gyfrwng yr iaith Tsiec, Almaeneg, Pwyleg, Idaidd a Saesneg.

Gan mai i orsaf Liverpool Street yn Llundain y byddai plant y *Kindertransport* yn dod yn y lle cyntaf dadorchuddiodd Syr Nicholas Winton gofob iddynt yno yn 2003.

Os oes gennych ddiddordeb i wybod mwy amdano mae sawl cyfweiliad ganddo yn safle *you tube*. Rhoddodd ef a phobl debyg iddo fywyd i blant mewn amgylchiadau dyrus. Mae'n dda clywed fod Cymru hefyd wedi cyfrannu i'r fenter arwrol hon.

LAJ

'Os bydd rhywun yn gosod ei holl fryd ar gyflawni rhywbeth yna fe all ei gyflawni, a derbyn bod gwneud hynny'n bosibl o gwbl yn y lle cyntaf.'

Nicholas Winton (1909-2015)